

# Deddf Erthylu 1967 (Cymeradwyo Man Triniaeth ar gyfer Terfynu Beichiogrwydd) (Cymru) 2018 (2018 Rhif 56)

Gwnaed 20fed Mehefin 2018

- \*\*\*

Mae Gweinidogion Cymru yn rhoi'r gymeradwyaeth a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddir i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adran 1(3) a (3A) o Ddeddf Erthylu 1967<sup>(1)</sup> ac a freiniwyd bellach ynddynt hwy.

## Cychwyn

1. Daw'r gymeradwyaeth hon i rym ar y dyddiad y'i gwneir.

## Dehongli

2. Yn y gymeradwyaeth hon—

mae “beichiogrwydd” (“*pregnancy*”) a “menyw feichiog” (“*pregnant woman*”) i'w dehongli drwy gyfeirio at Ddeddf Erthylu 1967;

ystyr “cartref” (“*home*”) yw'r man yng Nghymru lle y mae menyw feichiog yn preswyllo fel arfer; ac

ystyr “triniaeth” (“*treatment*”) yw cymryd y feddyginiaeth o'r enw misoprostol.

## Cymeradwyo dosbarth ar fan

3. Mae cartref menyw feichiog sy'n cael triniaeth at ddibenion terfynu beichiogrwydd wedi ei gymeradwyo fel dosbarth ar fan lle y caniateir i driniaeth ar gyfer terfynu beichiogrwydd gael ei chynnal pan fo'r driniaeth honno yn cael ei chynnal yn y modd a bennir ym mharagraff 4.

4. Rhaid i'r driniaeth gael ei chynnal yn y modd a ganlyn—

- (a) bod y fenyw feichiog wedi mynychu clinig lle y mae miffepriston a misoprostol wedi eu rhagnodi iddi i'w cymryd at ddibenion terfynu beichiogrwydd; a
- (b) bod y fenyw feichiog wedi cymryd miffepriston yn y clinig hwnnw a'i bod am gynnal y driniaeth gartref.



Llofnodwyd gan Vaughan Gething

Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, un o Weinidogion Cymru  
Dyddiad:

---

(1) 1967 p. 67. Mewnosodwyd adran 1(3A) gan adran 37(3) o Ddeddf Ffrwythlondeb ac Embryoleg Dynol 1990. Trosglwyddwyd pwerau'r Ysgrifennydd Gwladol, o ran Cymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672). Trosglwyddwyd swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru i Weinidogion Cymru o dan adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32), a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi.